# SL(5)549 – Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("Rheoliadau 2013") er mwyn newid dyddiad cychwyn y tymor ymdrochi yng Nghymru am y flwyddyn 2020. Mae'r diwygiad hwn yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i ymlediad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am y torri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 14 Mai 2020.

Yn benodol, nodwn yr hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch bod Cyfoeth Naturiol Cymru, o ganlyniad i argyfwng COVID-19, yn methu â gwneud ei waith arferol o brofi'r dyfroedd ymdrochi cyn dechrau'r tymor ymdrochi na chasglu'r data angenrheidiol am ansawdd dŵr erbyn dechrau'r tymor ymdrochi ar 15 Mai. Heb y Rheoliadau diwygio hyn, 15 Mai fyddai dyddiad cychwyn statudol penodol y tymor ymdrochi yng Nghymru a byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn torri el rwymedigaethau statudol. Yn ôl y llythyr:

> *"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 niwrnod yn cael ei gyfiawnhau o ystyried yr amgylchiadau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â sefyllfa argyfwng COVID-19. Byddai hyn nid yn unig yn darparu'r eglurder cyfreithiol angenrheidiol ynghylch tymor ymdrochi 2020 yng Nghymru ond byddai hefyd yn lleihau unrhyw risg o her gyfreithiol a gweithdrefnau dwyn achos am dorri cyfraith Ewropeaidd."*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheoliadau 2013, sy'n cael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, yn rheoliadau cyfansawdd ac yn gymwys i Gymru a Lloegr.

Fodd bynnag, bydd y diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig. Mae'r diwygiad i reoliad 4 o Reoliadau 2013 yn golygu y bydd y dyddiadau ar gyfer y tymor ymdrochi yng Nghymru yn wahanol i Loegr yn y flwyddyn 2020. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw newidiadau.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn newid y sefyllfa yng Nghymru fel a ganlyn:

> *"For the purposes of these Regulations, the bathing season in Wales—*
>
> *(a) subject to paragraph (b), begins on 15th May and ends at the end of the day on 30th September in each year;*
> *(b) for the year 2020, begins on 22nd June and ends at the end of the day on 30th September."*

Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau diwygio wedi dileu'r geiriau 'and Wales' mewn mannau lle bydd y testun yn ymwneud â Lloegr yn unig. Y geiriad yw:

> *"For the purposes of these Regulations, the bathing season in England and Wales begins on 15th May and ends at the end of the day on 30th September in each year."*

Er bod y Rheoliadau diwygio yn dechnegol gadarn, mae'r newid yn achosi diffyg eglurder yn Rheoliadau sylfaenol 2013.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai newid y testun i'r graddau y mae'n gymwys i Loegr o fewn cymhwysedd gan mai diben hynny yw egluro'r gyfraith fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Nid yw'n newid y gyfraith yn Lloegr.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail bwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Mai 2020**